



ffeithiau

Rheoli Safleoedd Rhandiroedd Pecyn Cymorth: Datrys anghydfod

Rhagarweiniad

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu pecyn o adnoddau i helpu sicrhau fod awdurdodau lleol ac eraill sy'n gysylltiedig â rheoli safleoedd rhandiroedd yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar botensial y safleoedd ar gyfer y boblogaeth leol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae FfaGC Cymru wedi llunio dogfen cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol, tyfwyr a grwpiau tyfu yng Nghymru sy'n cynnwys trosolwg o ran rheoli safleoedd rhandiroedd.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn un o gyfres sy'n rhoi mwy o fanylion ar y pynciau amrywiol sy'n rhan o'r Cyfarwyddyd.

Mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys detholiad o dempledi sampl tenantiaeth a dogfennau cyfreithiol eraill i gynorthwyo gyda rheoli safle.

Gellir lawrlwytho'r holl adnoddau hyn o:

www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit

Ynglŷn â'r daflen ffeithiau hon

Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys canllawiau cyffredinol gyda'r bwriad o gynorthwyo gyda datrys anghydfodau ar safleoedd rhandiroedd mor gyfeillgar â phosibl, ynghyd â gweithdrefn datrys anghydfod rhandiroedd enghreifftiol y gellir ei haddasu i weddu i'r amgylchiadau ar eich gwefan.



Datrys anghydfod

Mae'n hanfodol sylweddoli bod llawer o grwpiau ac unigolion gwahanol, ac mae'n anochel y bydd ganddynt farn amrywiol ar randiroedd yn gyffredinol, neu am yr hyn sy'n digwydd ar safle penodol. Hwyrach y bydd deiliaid lleiniau sydd yno ers talwm, mae'n debyg yn erbyn newid; hwyrach y bydd tenantiaid diweddar a grwpiau gwirfoddol eraill yn awyddus i gyflwyno cyfleusterau newydd ac amrediad ehangach o weithgareddau; hwyrach y bydd gan drigolion lleol bryderon am ddiogelwch neu brysurdeb o ran cerbydau yn yr ardal; ac efallai y bydd gan adrannau gwahanol y cyngor farn amrywiol ar randiroedd. Yn aml, bydd yr amrywiaeth farn yn dod i'r golwg yn unig pan gynigir neu cyflwynir newidiadau, er gwaethaf y bwriad da.

Gall pethau'n symud yn rhwydd iawn at anghydfod, gyda grwpiau'n cymryd safbwynt ac yn gwrthod symud oddi wrthynt — pwyntio bysedd yn aml iawn, a neb yn gwrandao rhyw lawer. Wedyn mae'r ffydd yn chwalu, sy'n arwain at ddiwylliant o 'nhw a ni' a gwrthdaro ac amheuaeth, a gall fod yn anodd iawn cyrraedd unrhyw sefyllfa gadarnhaol.

Mae sicrhau proses cyfathrebu ac ymgynghori cywir yn cymryd amser ac mae angen bod yn fedrus i'w gyflawni. Nid cyfrifoldeb rheolwr y rhandiroedd yn unig yw, ond pawb sy'n gysylltiedig er mwyn sicrhau dyfodol cadarnhaol ar gyfer rhandiroedd. Gweler isod rhai syniadau i'ch helpu ar drywydd cyfathrebu effeithiol:

- adnabod yr holl 'grwpiau rhanddeiliaid' sydd efallai â barn, cyn i unrhyw broblem ddod i'r amlwg
- ceisio meithrin ffydd a chysylltiad da gyda phob grŵp trwy gwrdd ag unigolion allweddol ar sail anffurfiol tu allan i gyfarfodydd 'ffurfiol'
- sicrhau dulliau cyfathrebu rheolaidd gyda phob rhanddeiliad

trwy gylchlythyrau (gweler isod), posteri a chyfarfodydd

- deall yr hanes tu ôl i broblem neu safle penodol. Mae atgofion yn gallu parhau am amser, ac mae'n gallu cymryd amser i greithiau wella a gall hyn helpu adnabod ffyrdd i gael hyd i atebion newydd i hen broblemau
- ceisio deall anghenion a phryderon sylfaenol grwpiau, sy'n debygol o fod yn ddilys, yn lle mynd yn sound ar safbwynt penodol sydd efallai'n ymddangos yn ddiwerth neu'n elyniaethus
- ceisio adnabod a magu gobeithion ac anghenion cyffredin rhwng grwpiau rhanddeiliaid megis 'mae pawb am gadw'r tir fel rhandiroedd' neu 'mae pawb am gael rhywle sy'n cadw'r niwsans i drigolion lleol mor isel â phosib' yn hytrach na'r problemau penodol sy'n rhannu pobl megis 'nid ydym eisiau cael y maes parcio newydd fan yna'
- dylid canolbwyntio trafodaeth ar broblemau nid personoliaethau
- os ydych am newid rhywbeth, dylech ddefnyddio proses fydd yn ymgysylltu â phob grŵp ar y cyfle cynharaf posib, yn hytrach na phan fydd y syniadau wedi troi'n gynlluniau.

Ar adeg o newid mawr, neu pan fyddwch yn datblygu strategaeth ar gyfer y rhandir, gallwch ystyried cyflogi arbenigwyr annibynnol i helpu dylunio a hwyluso proses o ddeialog. Trwy ddefnyddio hwylusydd annibynnol, mae pawb yn gallu bod yn rhan o'r broses ac mae'n meithrin ffydd, wrth sicrhau fod y deialog yn ddiuedd.

Mewn sefyllfa o wrthdaro agored rhwng grwpiau gwahanol, ac ymddengys nad oes unrhyw obaith o symud ymlaen, hwyrach y bydd cyfryngu annibynnol yn ffordd effeithiol o geisio datrys anghydfod mewn ffordd adeiladol.

Ar lefel unigol, gall anghydfod godi os tybir fod deiliad llain yn torri ei gytundeb/chytundeb tenantiaeth neu reolau'r rhandir mewn ffordd benodol. Wrth i'r galw am randiroedd gynyddu, hwyrach y bydd anghydfod yn digwydd yn amlach, wrth i denantiaid sydd yn ôl pob tyb yn 'ddrwg' gael eu cyhuddo o rwystro eraill rhag garddio, ac a fyddai'n gwneud 'gwell swydd' a 'gwella'r safle'. Hanner can mlynedd yn ôl roedd barn gyffredin ynghylch 'trin a thrafod y tir yn dda', ond oherwydd datblygu dulliau organig, mynegi diwyllianau garddio gwahanol o bedwar ban byd, a chydabod buddion lluosog garddio ar rhandir, mae'n anoddach erbyn hyn diffinio cyfyngiadau arferion derbynol, neu i fod yn sicr nad yw cwynion a seilir ar dulliau trin gwael mewn gwirionedd yn cuddio agweddau annerbynol tuag at wahaniaeth a gwahaniaethu cudd.

Dylai cytundebau tenantiaeth egluro'r amgylchiadau lle bydd terfynu tenantiaeth yn cael ei gyfiawnhau. Mae'n hanfodol, er hynny, cael lle yn y gyfundrefn ar gyfer apêl annibynnol (megis panel apêl) i sicrhau y dilynwyd y broses briodol. Mae'n rhaid seilio penderfyniad i derfynu tenantiaeth ar ddehongli'r cytundeb tenantiaeth, a hysbysir gan nid yn unig y Ddeddf Rhandiroedd, sydd mewn rhannau'n gyfarwyddol iawn, ond hefyd gan godau gofal cwsmer lleol. Mae'n rhaid trin deiliaid lleiniau mewn ffordd deg a rhesymol, gan dalu sylw priodol at eu hawliau dan Ddeddfau Hawliau Dynol a Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Mae'r cyfrifoldeb hwn yr un mor berthnasol i gymdeithasau rhandiroedd sy'n gweithredu ar ran awdurdod lleol dan gynllun rheolaeth ddatganoledig.

Mae'r Gymdeithas Rhandiroedd Genedlaethol yn cynnig gwasanaeth cyfryngu i aelodau: www.nsalg.org.uk

Ffynhonnell: Growing in the Community, Second edition. 2009

www.local.gov.uk/growing-community-second-edition

Gweithdrefnau Enghreifftiol Anghydfod ar Randir

Byddwn yn delio gydag anghydfod rhwng deiliaid lleiniau unigol yn y ffordd ganlynol.

1. Os darganfyddir fod deiliad llain yn torri unrhyw delerau o'r Cytundeb Tenantiaeth, Rheolau Penodol y Safle neu os bydd anghydfod yn codi rhwng deiliaid lleiniau, yn y lle cyntaf bydd Ysgrifennydd y Safle yn siarad â'r bobl dan sylw i gadarnhau'r rhesymau ar gyfer y broblem, a gwneud pob ymdrech i ddatrys y sefyllfa mewn ffordd foddhaol.
2. Os, ym marn Ysgrifennydd y Safle, mae deiliad y llain ar fai ac yn anfodlon dod i gytundeb, mae gan Ysgrifennydd y Safle'r hawl i gyhoeddi llythyr rhybudd cyntaf. Bydd y llythyr rhybudd cyntaf yn olrhain y rhesymau ac yn rhoi 28 diwrnod i ddeiliad y llain gywirio'r sefyllfa. Bydd Ysgrifennydd y Safle yn hysbysu Pwyllgor y Safle am y sefyllfa.
3. Os nad yw deiliad y llain wedi cydymffurfio â gofynion y llythyr rhybudd cyntaf o fewn 28 diwrnod, bydd Ysgrifennydd y Safle'n cyhoeddi ail lythyr rhybudd (terfynol) gan gyfeirio at y llythyr cyntaf, ac yn rhoi 28 diwrnod arall, ac yn nodi y bydd methu cydymffurfio erbyn yr ail ddyddiad yn arwain at gyhoeddi Rhybudd i Adael y Safle.
4. Os nad yw deiliad y llain wedi cydymffurfio â gofynion yr ail lythyr rhybudd (terfynol) o fewn 28 diwrnod, bydd Pwyllgor y Safle'n cael ei hysbysu, a chyhoeddir Rhybudd i Adael y Safle. Mae'n rhaid hysbysu'r Gymdeithas wrth gyhoeddi Rhybudd i Adael y Safle.
5. Bydd Rhybudd i Adael y Safle'n cyfarwyddo deiliad y llain i adael y llain a symud popeth oddi yno o fewn 28 diwrnod. Mae gan Ysgrifennydd y Safle hawl i ddsbarthu neu gael gwared ar unrhyw eitemau sy'n weddill ar ôl 28 diwrnod. Ni chaniateir i ddeiliaid lleiniau unigol symud unrhyw beth o'r llain wag heb ganiatâd Pwyllgor y Safle.
6. Os bydd deiliad y llain yn anghytuno â phenderfyniad Ysgrifennydd y Safle naill ai mewn perthynas â llythyr rhybudd cyntaf neu ail lythyr rhybudd (terfynol) neu hysbysiad i Adael y Safle, gall ofyn i'r achos fynd gerbron Pwyllgor y Safle.
7. Os bydd penderfyniad Pwyllgor y Safle o blaid Ysgrifennydd y Safle, ac mae deiliad y llain dal yn anfodlon, bydd ganddo/ganddi'r hawl i ofyn i'r achos fynd gerbron Pwyllgor y Gymdeithas.
8. Bydd Pwyllgor y Gymdeithas yn ystyried tystiolaeth pawb ac yn gwneud penderfyniad annibynnol ac yn anfon cadarnhad ysgrifenedig at bawb dan sylw. Bydd penderfyniad Pwyllgor y Gymdeithas yn derfynol.

Bydd llythyr rhybudd dal mewn grym am gyfnod o 5 mlynedd o ddyddiad ei gyhoeddi. Os torrir unrhyw amodau wedi hynny, bydd yn arwain at gyhoeddi ail lythyr rhybudd (terfynol) neu Rybudd i Adael y Safle (fel sy'n briodol).

Ar wahân i amgylchiadau eithriadol (i'w penderfynu'n unig gan Bwyllgor y Safle) bydd methu talu rhent neu wrthod llofnodi Cytundeb Tenantiaeth yn arwain at ddirwyn tenantiaeth i ben ar unwaith heb orfod dilyn y gweithdrefnau uchod.

Mewn achosion o dorri amodau mwy difrifol, gall Ysgrifennydd y Safle, yn ei hawl ei hun, symud yn uniongyrchol at gyhoeddi ail lythyr rhybudd (terfynol) neu at gyhoeddi Hysbysiad i Adael y Safle. Ymhlith esiamplau o dorri rheolau mwy difrifol mae:

- diystyru llythyr rhybudd yn fwriadol
- cam-drin geiriol
- cam-drin corfforol
- unrhyw ymddygiad arall sydd ym marn resymol Ysgrifennydd y Safle yn golygu risg o ran defnyddio'r Rhandiroedd neu ddeiliaid lleiniau neu swyddogion.

Gall y camau amrywiol a nodir uchod gynnwys cyfnod o fwy nag un flwyddyn ariannol.

Ffynhonnell: Seilir ar Lawlyfr Ysgrifennydd Safle Rhandiroedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

<https://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Allotments/Allotment-Site-secretary%27s-Hand-book.pdf>



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Social **Farms**
& **Gardens**
Ffermydd a Gerddi
Cymdeithasol 

Ffon: 02920 225 942 /**Ebost:** wales@farmgarden.org.uk
Website: www.farmgarden.org.uk